wrexham
COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Adroddiad Archwilio Blynyddol

2004 – 2005

Cynnwys

A) Rhagair gan y Cynghorydd Mike Edwards,
Pencampwr Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Tudalen 2

B) Rhagair gan Isobel Garner, Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Tudalen 3

C) Edrych yn Ôl Ebrill 2004 – Mawrth 2005 Tudalennau 4 - 7

Ch) Edrych Ymlaen Ebrill 2005 – Mawrth 2006 Tudalennau 8 - 12

Atodiadau: Pwyllgorau Archwilio Tudalennau 13–24

Atodiad 1: Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc

Atodiad 2: Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig (Sylwer bod y pwyllgor hwn wedi newid ei enw i'r Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Gorfforedig a Pholisi)

Atodiad 3: Pwyllgor Archwilio Amgylchedd ac Adfywiad

Atodiad 4: Pwyllgor Archwilio Materion Ariannol (Sylwer bod y pwyllgor hwn wedi newid ei enw i'r Pwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad)

Atodiad 5: Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai

Adroddiad Blynyddol - Rhagair

Rhagair gan y Cynghorydd Mike Edwards,
Pencampwr Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'n bleser gennyf ysgrifennu'r rhagair hwn ar gyfer Adroddiad Archwilio Blynyddol 2004 – 2005 yn ystod fy ail flwyddyn fel pencampwr archwilio ar gyfer Wrecsam. Gobeithiaf y bydd hwn, ein hail adroddiad blynyddol, yn caniatáu i'r Cyngor fyfyrio ar waith y pwyllgorau archwilio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gweld rhai o'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol yn cydnabod gwaith caled yr aelodau sydd wedi gwasanaethu ar y pwyllgorau archwilio yn y flwyddyn ddiwethaf a'r swyddogion sydd wedi cefnogi'r broses. Datgela'r cynnydd rydym wedi ei wneud ond cydnebydd fod angen gwneud mwy yn y flwyddyn sydd i ddod. Cynlluniwyd nifer o newidiadau a gwelliannau i wella cynnydd y broses archwilio ymhellach a chynorthwyo aelodau i ddatblygu eu gallu i wneud cyfraniad sylweddol i wella bywydau pobl Wrecsam.

Anelwn at godi ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth archwilio yn ystod 2005 – 2006 a bwriadwn ganolbwyntio ar y materion mawr a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Wrecsam.

Unwaith eto, mae gennym flwyddyn gyffrous llawn her o'n blaenau ac rydym yn ei chroesawu.

Y Cynghorydd Mike Edwards
Pencampwr Archwilio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rhagair gan Isobel Garner, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rwy'n falch iawn o gael gwahoddiad i gyfrannu at yr ail Adroddiad Archwilio Blynyddol. Mae'r pwyllgorau archwilio'n parhau i chwarae rôl bwysig wrth ddod â gwelliannau i wasanaethau'r Cyngor ac maent yn hanfodol i'r broses o lunio'r polisïau sy'n cefnogi'r ffordd a weithiwn i gyflawni blaenoriaethau corfforedig y Cyngor.

Mae'r pwyllgorau wedi gwneud ystod eang o waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n amlwg o'u proffil yn rhai o'r prosiectau pwysig yr ymgymerwyd â nhw. Mae'r aelodau newydd wedi ymgyfarwyddo â'u rolau yn dda ac yn arddangos eu sgiliau arolygu a herio. Rwy'n dal i edmygu faint o amser, ymroddiad ac ymdrech maent yn eu rhoi i'w gwaith. Yn benodol, tynnaf eich sylw at waith y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc a gyflwynodd y meini prawf ar gyfer y dasg anodd iawn a sensitif o arolygu darpariaeth addysg ledled y sir i'r Bwrdd Gweithredol.

Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod gwaith da a chynnydd y pwyllgorau yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn gosod rhai targedau anodd iawn ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd archwilio'n parhau i chwarae rôl hanfodol ac allweddol mewn gwella ein perfformiad a'n cyflawniad o amcan y Cyngor o ddarparu'r hyn sydd o bwys i bobl Wrecsam.

Cynigiaf fy nghefnogaeth lawn iddynt ac edrychaf ymlaen at gydweithio'n agos yn ystod yr hyn a ddisgwyliaf i fod yn flwyddyn gyffrous a llawn her.

Isobel Garner
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Archwilio Blynyddol
Ebrill 2004 i Fawrth 2005

Dyma'r ail Adroddiad Archwilio Blynyddol sy'n ofynnol dan y cyfansoddiad yn dilyn diwygiadau a wnaed gan y Cyngor ym mis Medi 2003.

1. EDRYCH YN ÔL

1.1 Cefndir

1.1.1 Cytunodd y Cyngor ar ei drefniadau rheolaeth wleidyddol mwyaf cyfredol ym mis Mai 2002. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys pum pwyllgor archwilio presennol yr Awdurdod, gyda chyd-gadeiryddion yn cael eu penodi ar gyfer pob pwyllgor. Mae aelodaeth o'r pwyllgorau archwilio'n wleidyddol gytbwys.

1.1.2 Yn ogystal, mae cyd-gadeiryddion y pwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd fel grŵp cydlynu i ddyrannu cyfrifoldeb am faterion nad ydynt yn dod o fewn cwmpas clir pwyllgor archwilio penodol ac i gadw arolwg o ran datblygiad parhaus y swyddogaeth archwilio.

1.2. Cynllun Gweithredu Archwilio

1.2.1 Yn adroddiad archwilio'r llynedd, bu i ni eich hysbysu y nodwyd y broses archwilio fel un o flaenoriaethau gwella allweddol yr Awdurdod yng Nghynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2003/2004. Datblygwyd cynllun gweithredu i ymdrin â'r gwendidau canfyddedig yn y broses bresennol, gan ganolbwyntio ar:-

- Newidiadau i'r cyfansoddiad
- Arolwg o'r strwythur, trefniadau a phrosesau presennol
- Cynhyrchu cynllun blaengynllunio
- Rhaglen waith a arweinir gan aelodau
- Rhaglen datblygu aelodau sy'n seiliedig ar sgiliau
- Arolwg o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi archwiliadau'n effeithiol
- Gwella rôl y cyhoedd a'n partneriaid yn y gwaith archwilio
- Codi ymwybyddiaeth staff o'r swyddogaeth archwilio

Gwelwyd gwelliannau sylweddol mewn sawl maes. Mae'r rhai allweddol yn cynnwys:-

Newidiadau i'r cyfansoddiad

1.2.2 Gan adeiladu ar ddiwygiadau a wnaed i'r cyfansoddiad yn y blynyddoedd blaenorol, cafwyd arolwg pellach yn ystod 2004 – 2005 i ychwanegu protocolau ychwanegol. Mae'r rhain wedi gwella'r swyddogaeth archwilio ac wedi rhoi esboniad cliriach i amodau gorchwyl pob un o'r pwyllgorau

archwilio, ymddygiad swyddogion ac aelodau mewn cyfarfodydd a mewn perthynas â materion cyfrinachol.

Arolwg o'r strwythur, trefniadau a phrosesau presennol

1.2.3 Yn ystod 2003 – 2004, datblygwyd rhestr wirio archwilio i alluogi aelodau i wneud arolygon archwilio mewn ffordd fwy strwythuredig a chyson. Mae datblygiad proses debyg ar gyfer cynnwys aelodau wrth ddatblygu ac arolygu polisïau'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, gan adeiladu ar y sesiwn hyfforddiant lwyddiannus am ddatblygu polisi a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2005.

1.2.4 Yn ogystal, diweddarwyd gweithdrefnau sy'n perthyn i'r broses archwilio yn y llawlyfr Gweithdrefnau Corfforedig sy'n cynnwys cyfarwyddyd ar sut gall swyddogion wneud cais i bwyllgorau archwilio ystyried eitemau ac amlinellu opsiynau o ran sut gellid darparu gwybodaeth er mwyn ei hystyried mewn cyfarfod archwilio.

1.2.5 Cafwyd arolwg o strwythurau'r pwyllgorau archwilio ers hynny a manylir ar y casgliadau dan adran Ch – 'Edrych Ymlaen'.

Rhaglen waith a arweinir gan aelodau

1.2.6 Gwnaed cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod rhaglenni gwaith archwilio'n cael eu harwain fwy gan aelodau, yn canolbwyntio ar y tymor hwy ac ar faterion sy'n bwysig i aelodau. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn bwysig cael digon o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer eitemau brys sy'n codi.
Mae'r rhaglenni gwaith ar gael ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd erbyn hyn ac maent yn cael eu cylchredeg i aelodau a swyddogion yn rheolaidd.

Rhaglen datblygu aelodau

1.2.7 Yn dilyn archwiliad o sgiliau aelodau a wnaed yn 2003, cytunwyd ar raglen hyfforddiant ar gyfer datblygu sgiliau aelodau. Mae sesiynau datblygu a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005 wedi cynnwys sesiwn sefydlu aelodau archwilio ym mis Gorffennaf 2004, yn dilyn etholiadau'r fwrdeistref sirol. Yn ychwanegol, cynhaliwyd gweithdy arolygu a datblygu polisïau poblogaidd a gwerthfawr dros gyfnod o ddau ddiwrnod ym mis Chwefror 2005.
Manylir ar wybodaeth ynghylch sesiynau pellach a drefnwyd dan adran Ch – 'Edrych Ymlaen'.

Arolwg o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi archwiliadau'n effeithiol

1.2.8 Ym mis Ionawr 2003, cytunodd y Bwrdd Gweithredol i secondio swyddog i ddarparu'r gefnogaeth benodol gyntaf i'r broses archwilio. Gwnaed y swydd yn barhaol ym mis Ebrill 2004. Mae arolwg pellach o'r adnoddau sydd eu hangen i cefnogi'r broses archwilio'n effeithiol wedi arwain at estyn y tîm i gynnwys penodiad swyddog archwilio a chynorthwy-ydd archwilio/swyddog gweinyddol.

Gwella rôl y cyhoedd a phartneriaid yn y broses archwilio

1.2.9 Cafwyd rhai achlysuron cadarnhaol o gynnwys y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â materion megis ffordd gyswllt Ystad Ddiwydiannol Wrecsam pan wahoddwyd aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno eu barn yn uniongyrchol i

aelodau yn y cyfarfodydd archwilio. Yn ogystal, gwahoddwyd cynrychiolwyr o rai o'n cyrff partner ac asiantaethau allanol, megis yr heddlu, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddod i gyfarfodydd archwilio a chymryd rhan.

1.2.10 Mae mesurau yn eu lle hefyd i wella cyhoeddusrwydd a gwybodaeth ar wefan y Cyngor ymhellach. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni gwaith archwilio, newyddlenni, cwestiynau a ofynnir yn aml a chysylltiadau i gofnodion ac agendâu pwyllgorau. Bwriedir meithrin cyswllt agosach ag Uned Cyfathrebiadau'r Cyngor er mwyn hybu'r swyddogaeth archwilio a'r materion sy'n cael eu hystyried.

1.2.11 Fodd bynnag, mae'r broblem o sut i ennyn diddordeb y cyhoedd yn y broses archwilio yn un sy'n profi i fod yn broblem genedlaethol yn ogystal â lleol.

Codi ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth archwilio

1.2.12 Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng cyd-gadeirydd y grŵp cydlynu, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr strategol a phrif swyddogion ym mis Ionawr 2005. Pwrpas y cyfarfod hwn oedd gweld sut gall aelodau a swyddogion gydweithio'n well er mwyn gwella'r swyddogaeth archwilio. Arweiniodd hyn at gynllun gweithredu ar y cyd sy'n cael ei weithredu a'i fonitro ar hyn o bryd. Bwriedir cynnal digwyddiad tebyg ym mis Hydref 2005.

1.2.13 Datblygwyd tudalen archwilio ar fewnrwyd y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion a diweddarir hon yn rheolaidd. Cynhwyswyd gwybodaeth fel cwestiynau a ofynnir yn aml, gweithdrefnau archwilio, newyddlenni a rhaglenni gwaith archwilio ar y safle a cheir cysylltiadau i agendâu a chofnodion y pwyllgorau.

1.2.14 Ysgrifennwyd newyddlenni archwilio a dosbarthwyd y rhain i bob cyfarwyddwr a phrif swyddog. Rhoddodd y newyddlen gyntaf ym mis Hydref 2004 wybodaeth am archwilio'n gyffredinol, y prif swyddogaethau, yr egwyddorion allweddol, y pwyllgorau archwilio a rôl y tîm archwilio. Rhoddodd yr ail newyddlen ym mis Mawrth 2005 wybodaeth am sut i gynnwys eitem ar y rhaglenni gwaith archwilio a materion i swyddogion eu hystyried wrth fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau archwilio. Mae rhai swyddogion wedi defnyddio'r newyddlenni hyn yng nghyfarfodydd eu timau rheoli. Gellir darllen y newyddlenni ar fewnrwyd y Cyngor.

1.2.15 Dosberthir rhaglenni gwaith i Dîm Rheolaeth Strategol y Cyngor, prif swyddogion ac aelodau bob tri mis ac maent yn cael eu cynnwys ar dudalen we archwilio mewnrwyd y Cyngor.

1.3 Arolwg y Comisiwn Archwilio o'r trefniadau archwilio

1.3.1 Yn ogystal â'r meysydd a nodwyd yng nghynllun gweithredu archwilio'r Cyngor (a ddisgrifiwyd uchod), ymgymerodd y Comisiwn Archwilio ag arolwg o drefniadau archwilio Wrecsam yn ystod 2003 – 2004. Cefnogodd yr arolwg hwn y casgliadau ond cynhwysodd arghymelliad ychwanegol fel maes

gwella pellach, sef cefnogi Technoleg Gwybodaeth ac annog aelodau i'w defnyddio.

1.3.2 Mae gan 50 o'r 52 aelod gyfrifiaduron personol, ynghyd â chyfleusterau ebost a mynediad i'r rhyngrwyd trwy gysylltiadau band eang erbyn hyn.

1.4 Rhwydweithio

1.4.1 Mae gwaith trwy rwydwaith Swyddogion Cefnogaeth Archwilio Gogledd Cymru (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam) wedi bod yn symud yn ei flaen. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion a phroblemau cyffredin a rhannu syniadau ac arfer gorau mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.

1.4.2 Un darn o waith pwysig yw datblygiad Fframwaith Gwerthuso Archwilio Cymru Gyfan lle bu i Wrecsam chwarae rôl arweiniol. Gobeithir lansio'r fframwaith yn 2005.

1.5 Darlun cenedlaethol

1.5.1 Mae'r Ganolfan Archwiliad Cyhoeddus yn arolygu datblygiad y swyddogaeth archwilio'n genedlaethol. Cyhoeddwyd cyd-adroddiad gan y corff hwn a Chomisiwn Archwilio Cymru, o'r enw 'Archwilio yn Llywodraeth Leol Cymru', ym mis Ionawr 2005. Casglodd yr adroddiad:

"Mae archwilio wrth graidd agenda foderneiddio llywodraeth leol Cymru ac mae'n elfen hanfodol o archwiliad ehangach. Gall pwyllgorau archwilio ac arolygu (PAA) chwarae rôl allweddol yng ngwaith awdurdod lleol; cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Cymunedol statudol; cynorthwyo'r awdurdod i weithredu ei bwerau lles, ynghyd ag archwilio'r broses o wneud penderfyniadau'n effeithiol. Dylai PAA fod yn fforymau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, dod â'r chwaraewyr allweddol at ei gilydd, cysylltu dulliau arolygu â pholisïau a chanolbwyntio allbynnau rheoliadau er mwyn hybu gwelliant a gwella atebolrwydd.

"Er gwaethaf arwyddion o welliant a chydnabyddiaeth gynyddol cynghorau o botensial PAA, cytunir yn gyffredinol nad yw'r swyddogaeth archwilio ym maes llywodraeth leol Cymru'n gweithio mor effeithiol ag y dylai hyd yma. Er mwyn mwyhau ei chyfraniad, rhaid ymsefydlu pwysigrwydd archwilio yn niwylliant cynghorau Cymru. Dylai pob awdurdod feddu ar ddarpariaeth gefnogi gref ag adnoddau da ar gyfer y swyddogaeth hon. Trwy adeiladu ar yr arfer da presennol, gweithredu egwyddorion archwilio da a rhannu syniadau a phrofiadau, gall llywodraeth leol Cymru ddefnyddio'r broses archwilio fel catalydd effeithiol i lywodraethu'n well a pharhau i wella."

1.5.2 Amlyga'r adroddiad Wrecsam fel enghraifft o arfer gorau ym maes ennyn diddordeb y cyhoedd mewn perthynas â'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig ar fynediad i gerbydau i Fynwent Wrecsam.

1.6 Casgliad

1.6.1 Mae'n glir bod y swyddogaeth archwilio wedi symud yn ei blaen yn sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae proses a arweinir fwyfwy gan aelodau wedi ei datblygu, mae aelodau'n deall mwy am y broses ac mae tîm cefnogi penodedig wedi ei greu.

Fodd bynnag, mae angen mwy o gynnydd a manylir ar y gwaith hwn yn yr adran nesaf 'Edrych Ymlaen'.

2. EDRYCH YMLAEN – CAEL GWELLIANNAU PELLACH

2.1 Darparu rhaglenni hyfforddiant

2.1.1 Er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau ymhellach ac felly gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio, mae nifer o sesiynau datblygu aelodau sy'n ymwneud â'r swyddogaeth archwilio wedi cael neu'n cael eu trefnu yn y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau a dulliau cadeirio (a nodwyd fel angen datblygu gan Swyddfa Archwilio Cymru), a ddylai wella agwedd aelodau at baratoi a chadeirio cyfarfodydd cymhleth. Bydd y meysydd eraill i'w cynnwys yn y rhaglen yn cynnwys datblygu ac arolygu polisi, rheoli perfformiad a dadansoddiad ariannol.

2.2 Gwell cyswllt â swyddogion allweddol

2.2.1 Yn dilyn y cyd-gyfarfod llwyddiannus rhwng cyd-gadeiryddion archwilio ac uwch reolwyr yr Awdurdod ym mis Ionawr 2005, bwriedir cynnal ail sesiwn ym mis Hydref 2005. Bydd hwn yn gyd-gyfarfod rhwng cyd-gadeiryddion archwilio, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr strategol a phrif swyddogion unwaith eto a bydd yn arolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu cytunedig a gynhyrchwyd yn dilyn y cyd-gyfarfod cyntaf ac yn nodi ffyrdd eraill ar gyfer gwella'r swyddogaeth archwilio ymhellach.

2.2.2 Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd rhwng pob pâr o gyd-gadeiryddion archwilio a'r swyddogion priodol i helpu i flaengynllunio'r rhaglenni gwaith archwilio.

2.3 Gwell cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth ymysg staff

2.3.1 Bwriedir gwneud mwy o ymdrech i godi ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth archwilio ymysg staff ar bob lefel trwy'r fewnrwyd, Diweddariad (cylchgrawn staff y Cyngor) a newyddlenni. Byddai hyn yn ychwanegol i'r cyd-gyfarfodydd â swyddogion allweddol a ddisgrifir uchod.

2.3.2 Bydd modd gweld y rhaglenni gwaith archwilio ar y fewnrwyd a byddant yn cael eu cylchredeg bob 3 mis. Bydd unigolion priodol yn mynd i gyfarfodydd adrannol hefyd i helpu swyddogion i ddeall prif egwyddorion archwilio a sut mae'n gweithio.

2.4 Cynnwys y cyhoedd a phartneriaid

2.4.1 Parhawn i ddiweddaru'r dudalen we archwilio i ganiatáu i'r cyhoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid i weld gwybodaeth am archwilio yn Wrecsam. Mae'r dudalen eisoes yn cynnwys rhaglenni gwaith archwilio, manylion cyswllt, trefniadau rheolaeth wleidyddol, newyddlenni, cwestiynau a ofynnir yn aml, aelodaeth y pwyllgorau a chysylltiadau i gofnodion ac agendâu'r pwyllgorau.

2.4.2 Bydd y tîm archwilio, ar y cyd ag Uned Cyfathrebiadau'r Cyngor, yn gweithio ar syniadau i godi proffil archwilio yn Wrecsam. Bydd hyn yn cynnwys datganiadau i'r wasg ac erthyglau i dynnu sylw'r cyhoedd ac erthyglau tynnu sylw 'Beth Sy'n Newydd' ar y rhyngrwyd.

2.4.3 Rhaid ystyried symud y swyddogaeth archwilio i ffwrdd o Neuadd y Dref hefyd a chynnal cyfarfodydd mewn llyfrgelloedd, ysgolion, canolfannau cymuned, ayb. Fodd bynnag, bydd hyn yn llwyddo dim ond os cefnogir ef gan sylw yn y wasg leol ac ar wefan y Cyngor ac os yw'r eitemau ar yr agenda'n berthnasol ac o ddiddordeb i'r cyhoedd.

2.4.4 Mae'n amlwg bod gofyn i ni wneud mwy i gynnwys y cyhoedd a chyrff partner yn y broses archwilio ac mae cynlluniau yn eu lle i gynnwys budd-ddeiliaid yn fwy yn ystod 2005 – 2006. Dyma rai enghreifftiau penodol:

- Cyd-gyfarfod rhwng y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai a'r Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau ym mis Mai 2005. Trefnwyd ymweliadau ag eiddo ar gyfer aelodau a'r Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau hefyd.
- Mae Pennaeth Coleg Addysg Bellach Iâl wedi cytuno i fynychu'r Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc ym mis Mehefin 2005 i drafod addysg ôl-16 yn Wrecsam ac, yn benodol, materion sy'n ymwneud â darpariaeth yng Ngholeg Iâl. Mae wedi estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc ddod i weld cyfleusterau Coleg Iâl a gobeithir gwneud hyn ym mis Tachwedd 2005.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio Amgylchedd ac Adfywiad wedi cynnwys cynrychiolwyr o gyrff allanol, megis LlCC ac Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn arolygon a wnaed gan y Pwyllgor. Yn yr un modd, mae cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru wedi dod i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig yn rheolaidd pan drafodir materion sy'n perthyn i'r cynllun wardeiniaid cymdogaeth.

2.4.5 Rhaid ystyried datblygu canllawiau mwy ffurfiol ar gyfer caniatáu'r cyhoedd a chyrff allanol i siarad a darparu gwybodaeth mewn cyfarfodydd archwilio (cyn belled ag y bo'n berthnasol i'r eitem ar yr agenda). Yn ogystal, mae'n rhaid i ni ddatblygu ffyrdd a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd a chyrff allanol godi

materion o bryder iddynt er mwyn i aelodau eu hystyried a'u cynnwys yn eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

2.5. Arolygu a gwerthuso

2.5.1 Fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae swyddogion archwilio o Wrecsam wedi chwarae rôl flaengar mewn datblygu fframwaith hunan-werthuso gwaith archwilio i Gymru.

2.5.2 Mae'r Grŵp Cydlynu wedi cytuno i gael arolwg o effeithiolrwydd y broses archwilio a'r trefniadau i gefnogi gwaith archwilio yn ystod 2005 – 2006 er mwyn adnabod meysydd gwella neu newid. Gobeithir y bydd y fframwaith hunan-werthuso'n helpu'n fawr gyda'r broses hon.

2.5.3 Bydd rhan o'r arolwg hwn yn gofyn am asesiad o effaith gwaith archwilio ar welliannau a newidiadau i wasanaethau a pholisïau'r Cyngor. Mae rhai enghreifftiau penodol y gellid eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn yn cynnwys:

- y gwaith a wneir i werthuso gweithrediad ac effeithiolrwydd y cynllun wardeiniaid cymdogaeth (gan y Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Gorfforedig a Pholisi)
- gwerthuso effeithiolrwydd y broses rheoli prosiect a ddefnyddiwyd ar gyfer prosiectau ysgol Rhos a Choedpoeth (gan y Pwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad)
- Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gofal seibiant yn Fflat Adfer Springfield gan y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai)

2.6. Methodoleg ar gyfer datblygu ac arolygu polisïau a chynlluniau

2.6.1 Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes, bwriedir datblygu methodoleg yn ystod 2005/6, i'w chymeradwyo gan aelodau a swyddogion, er mwyn cynnwys archwilio mewn materion sy'n perthyn i bolisi. Bydd y fethodoleg hon yn sicrhau bod aelodau archwilio'n cael eu cynnwys wrth ddatblygu polisi ar yr adeg gywir ac mewn ffordd ystyrlon.

2.7 Monitro perfformiad

2.7.1 Mae'r Grŵp Cydlynu wedi dyrannu cyfrifoldeb am fonitro cyflawniad pob un o flaenoriaethau corfforedig yr Awdurdod ar gyfer 2005- 2008 fel y fanylir arnynt isod:

- **Gwella safonau a chyrhaeddiad addysgol** - *Plant a Phobl Ifanc*
- **Gwella gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar y cyd-arolwg** – *Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai*
- **Glyniad cymunedol** – *Materion Corfforedig (Llywodraeth Gorfforedig a Pholisi erbyn hyn)*
- **Busnesau ffyniannus, gweithlu medrus a chymunedau adfywiedig**- *Amgylchedd ac Adfywiad*

- **Cynyddu ailgylchu a lleihau claddu sbwriel –** *Amgylchedd ac Adfywiad*
- **Gwella cyswllt â chwsmeriaid a galluogi'r Cyngor i ddeall eu hanghenion a dymuniadau –** *Materion Corfforedig*
- **Rhyddhau adnoddau i yrru cyflawniad blaenoriaethau'r Cyngor a gwella perfformiad gwasanaethau yn ei flaen –** *Ariannol (Cyllid a Pherfformiad erbyn hyn)*
- **Gwella'r stoc tai –** *Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai*
- **Sicrhau gwasanaeth ymatebol i blant a phobl ifanc –** *Plant a Phobl Ifanc*
- **Lleihau troseddau ac ofn pobl am droseddau –** *Materion Corfforedig*
- **Gwella iechyd, gofal cymdeithasol a lles –** *Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai*
- **Gwella ffyrdd a chludiant** – *Amgylchedd ac Adfywiad*
- **Hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru –** *Plant a Phobl Ifanc*
- **Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol –** *Amgylchedd ac Adfywiad*

2.7.2 Gwnaed peth gwaith eisoes i ddechrau adnabod ac arolygu'r polisïau presennol ar gyfer pob blaenoriaeth gorfforedig yn ogystal â meysydd lle mae'n ymddangos nad oes polisïau'n bodoli neu lle maent yn aneglur.

2.8 Canolbwyntio ar y 'materion mawr'

2.8.1 Bydd rhai 'materion mawr' i aelodau archwilio eu hystyried fel rhan o'u rhaglenni gwaith ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar adnabod rhai o'r materion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol a gynhwyswyd mewn rhaglenni gwaith archwilio yn ystod hydref 2005.

- Proses gyllidebol 2006/7
- Effeithiolrwydd corfforedig/gweithio ar y cyd
- Perfformiad a chanlyniadau addysg
- Gweithlu medrus – materion ac anawsterau yn Wrecsam
- Canlyniadau'r archwiliad o ganolfannau cymuned
- Mynwent Wrecsam (anghenion a dewisiadau) a'r Amlosgfa (goblygiadau cyfarwyddiadau'r UE)
- Wardeiniaid cymdogaeth (effeithiolrwydd y cynllun)
- Blaenoriaethu prosiectau'r Rhaglen Cyfalaf Tai

2.9 Ailstrwythuro trefniadau archwilio

2.9.1 Ymgymerir ag arolwg o'r strwythur, amodau gorchwyl ac aelodaeth o'r pwyllgorau archwilio gyda'r nod o gyflwyno cynigion i gyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2005. Cafwyd trafodaethau rhwng y Grŵp Cydlynu a'r Gweithgor Datblygu Aelodau ar Gyfer Swyddogion ac Aelodau ac mae'r prif gynigion fel a ganlyn:

- Y Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig i ddod yn Bwyllgor Archwilio Llywodraeth Gorfforedig a Pholisi

- Y Pwyllgor Archwilio Ariannol i ddod yn Bwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad
- Ailstrwythuro aelodaeth y pum pwyllgor archwilio, pob un i gael aelodaeth wleidyddol gytbwys o 13

Atodiad 1

PWYLLGOR ARCHWILIO PLANT A PHOBL IFANC

AELODAETH 2004/2005

Cyd-gadeiryddion (2):	Mrs Shân Wilkinson OBE	G W Griffiths
Aelodau (12):	Paul Blackwell Ron Davies T Alan Edwards J M Humberstone George D James J A Kelly KSG	M G Morris Colin Powell D N Price I Roberts Christopher M Stubbs Malcolm Williams
Cynrychiolwyr o'r Eglwys/Rhiant Lywodraethwr (4):	Mr B Evans Mr M Greaney	Mrs J A Whitley 1 swydd wag
Cydlynydd swyddog arweiniol:	Karen Mills Swyddog Archwilio	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y pwyllgor cyn etholiadau Mehefin 2004 (rhwng Ebrill a Mehefin 2004):	R W Caldecott Sheila Griffiths P Jeffares A G Jones	M H R Moysen R D Prince Aled R Roberts Cyd-gadeirydd H T Williams Cyd-gadeirydd
Gwasanaethodd y cynrychiolwyr canlynol o'r eglwys/rhieni lywodraethwyr ar y pwyllgor hefyd	Mr P R Williams	Mrs S F C Winson

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a swyddogaethau:-

- **Gwasanaethau cymdeithasol** gan gynnwys: diogelu plant; plant mewn angen; iechyd plant; plant ag anableddau; iechyd meddwl plant a phobl ifanc; plant y gofelir amdanynt; maethu a mabwysiadu.
- **Addysg a dysgu**: gan gynnwys: addysg blynyddoedd cynnar, addysg gynradd, uwchradd ac ôl-16; gwasanaethau perthynol gan gynnwys anghenion arbennig, cludiant ysgol, llyfrgelloedd ysgol, prydau ysgol, adeiladau/ cyfarpar ysgolion, derbyniadau a grantiau myfyrwyr.
- **Gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth troseddau ieuenctid**

- **Hamdden i'r rhai dan 18 oed**

Prif gynlluniau a strategaethau:-
Cynllun Cefnogi Ymddygiad; Cynllun Gwasanaethau Plant; Cynllun Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar; Cynllun Strategol Addysg; Cynllun Trefniadaeth Ysgolion; Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid; Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc; Cynllun Strategol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

GWYBODAETH BELLACH
Yn ystod Ebrill 2004 a Mawrth 2005:

1. Cynhwysai'r Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc 14 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion) yn ogystal â 4 cynrychiolydd o'r eglwysi a rhieni lywodraethwyr.

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod **10** tro yn ystod y 12 mis.

3. Cyfartaledd y presenoldeb yn y cyfarfodydd oedd rhyw **68%** (cyfartaledd y flwyddyn flaenorol oedd 60 %).

4. Canolbwyntiodd y Pwyllgor Archwilio ar faterion addysg yn bennaf yn y flwyddyn ddiwethaf, o bosibl ar draul meysydd eraill o gyfrifoldeb y Pwyllgor. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y materion hynny sy'n perthyn i brif flaenoriaeth gorfforedig y Cyngor o godi cyrhaeddiad addysgol. Roedd y meysydd a berthynai i elfen addysg o gyfrifoldeb y Pwyllgor a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-

   - Polisïau cludiant ysgol (gweler isod hefyd)
   - Addysg ôl-16
   - Darpariaeth addysg/rhaglen gyfalaf
   - Perfformiad a chyrhaeddiad addysgol (eitemau cyson)
   - Data teulu Fischer (sesiwn ddatblygu ymarferol)
   - Anghenion addysgol arbennig

5. O ran elfennau anaddysgol y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor, archwiliwyd y materion canlynol:-

   - Gwasanaethau ieuenctid
   - Gwasanaethau troseddau ieuenctid
   - Mabwysiadu a maethu plant y gofelir amdanynt (polisi tymor hir)
   - Archwiliad o wasanaethau i blant mewn angen (mewn ymateb i argymhellion arfer Ymchwiliad Victoria Climbie)
   - Datblygu chwarae i blant a phobl ifanc yn Wrecsam
   - Strategaeth chwarae corfforol ar gyfer yr ardal
   - Arolwg strwythurol o blant a phobl ifanc (diweddariadau)

6. Arweiniodd y Pwyllgor hwn y ffordd yn 2003–2004 o ran defnyddio grwpiau byr dymor i gynyddu gallu'r Pwyllgor i archwilio rhai materion penodol. Symudwyd hyn ymlaen ymhellach yn 2004–2005. Parhaodd y Grŵp Byr Dymor Polisïau Cludiant Ysgol ei waith i mewn i 2004–2005. Profodd yr arolwg hwn i fod yn ddarn pwysig o waith y mae ei gwmpas yn cynnwys cludiant ysgol, derbyniadau gan eu bod yn effeithio ar gludiant ysgol a theithiau peryglus. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar y Polisi Teithiau Peryglus diwygiedig ym mis Chwefror 2005. Bydd angen rhagor o waith ar weddill yr arolwg hwn ond disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mehefin 2005. Yn ychwanegol, sefydlwyd dau grŵp byr dymor arall i edrych ar anghenion addysgol arbennig a darpariaeth addysgol.

7. Mae'r Pwyllgor hwn wedi arddangos enghreifftiau o arfer da o ran profi bod y swyddogaeth archwilio'n cael ei harwain gan aelodau. Er enghraifft, paratodd a chyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad pwyllgor archwilio ei hun i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Chwefror 2005 mewn perthynas â'r Polisi Teithiau Peryglus (canlyniad o Grŵp Byr Dymor Cludiant Ysgol y Pwyllgor). Mae'r Pwyllgor yn cynllunio agwedd debyg at gyflwyno eu hargymhellion pan fydd arolygon y grwpiau byr dymor eraill (polisïau cludiant ysgol, darpariaeth addysg ac anghenion addysgol arbennig) yn dod i ben.

   Mewn partneriaeth â swyddogion addysg, mae'r Pwyllgor hwn yn trefnu gweithdy ar gyfer aelodau ar hyn o bryd a fydd yn canolbwyntio ar dargedau ar gyfer cyrhaeddiad addysgol (sy'n flaenoriaeth gorfforedig) i alluogi aelodau i ddeall mwy am y broses o osod targedau er mwyn iddynt allu herio'r targedau addysg a osodir yn y Cynllun Gwella Drafft. Bydd y gweithdy hwn yn cynnwys safbwyntiau ysgolion, yr AALl, rhiant lywodraethwr, y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Gweithredol. Bwriedir cynnal y digwyddiad hwn ym mis Mai 2005.

8. Defnyddiwyd ystod amrywiol o ddulliau i gyflwyno gwybodaeth yn y cyfarfodydd pwyllgor ac anogwyd hyn gan aelodau'r pwyllgor er mwyn gwneud y cyfarfodydd yn fwy diddorol a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n glir. Mae'r dulliau o gyflwyno gwybodaeth wedi cynnwys cyflwyniadau PowerPoint, adroddiadau, gweithdai ymarferol ac astudiaethau achos. Er enghraifft, defnyddiwyd gweithdy ac astudiaethau achos i helpu aelodau i ddeall sut y gellir defnyddio data Fischer i helpu i wella perfformiad yn yr ysgol.

Atodiad 2

PWYLLGOR ARCHWILIO MATERION CORFFOREDIG

AELODAETH 2004/2005

Cyd-gadeiryddion (2)	Ron Davies	R J Dutton OBE
Aelodau (8):	Paul Blackwell Judith C Connolly R Mark Davies M G Morris	F A Nichols Colin Powell R D Prince David Rogers
Cydlynydd Swyddog Arweiniol:	Keith Lea Rheolwr Archwilio	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y Pwyllgor cyn etholiadau Mehefin 2004 hefyd (rhwng Ebrill a Mehefin 2004):	Mrs Mollie Beresford M J Edwards (cyd-gadeirydd) R B Evans A G Jones	M H R Moysen David Rogers (cyd-gadeirydd) Cyril Williams

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a Swyddogaethau

- **Polisïau strategol cyffredinol** gan gynnwys: cynllun gwella; strategaeth gymunedol; strategaeth gorfforedig; rheoli perfformiad; rheoli eiddo, ynni ac asedau; cyfathrebiadau/cysylltiadau cyhoeddus; mynediad cwsmeriaid i wasanaethau; caffael; troseddu ac anhrefn; pobl ifanc sy'n niwsans; materion sy'n perthyn i'r heddlu
- **Personél** gan gynnwys: cyfle cyfartal; materion staffio; iechyd a diogelwch
- **TG a thelathrebu**
- **Cyfreithiol** gan gynnwys: materion cyfreithiol; hyfforddi a datblygu aelodau; gwasanaethau pwyllgora a maerol; gwasanaethau cofrestru a'r crwner

Prif gynlluniau a strategaethau

Strategaeth Gymunedol; Datganiad y Strategaeth Gorfforedig; Cynllun Gwella; Strategaeth Lleihau Troseddau ac Anhrefn; Cynllun Iaith Gymraeg; Cynlluniau Rheoli Asedau.

GWYBODAETH BELLACH

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2004 a Mawrth 2005:

1. Cynhwysai'r Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig o 10 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion).

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod **10** tro yn ystod y flwyddyn.

3. Cyfartaledd y presenoldeb yn y cyfarfodydd oedd **66%** (roedd yn 72% yn y flwyddyn flaenorol).

4. Mae gan y Pwyllgor Archwilio hwn gyfrifoldebau helaeth, yn delio â llawer o'r polisïau cyffredinol sy'n effeithio ar yr Awdurdod ac ystyried eitemau nad ydynt i weld yn dod o fewn cyfrifoldebau'r pwyllgorau archwilio eraill. Adlewyrchir hyn yn yr ystod eang o eitemau gwaith a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r prif rai fel a ganlyn:-

- Cynllun rheoli asedau corfforedig 2004/2009 (mabwysiadwyd y maes hwn wedyn gan y Gweithgor Rheoli Asedau Aelodau a Swyddogion ar y Cyd a ailsefydlwyd)
- Trefniadau cydweithio / cydweithredu ag awdurdodau eraill
- Pobl ifanc sy'n creu niwans
- Cynllun Gwella 2004/05
- Monitro'r Strategaeth Gymunedol
- Datblygiad aelodau a chyfathrebu
- Wardeiniaid cymdogaeth
- Ysmygu yn yr ysgol
- Monitro personél
- Strategaeth Caffaeliad
- Trefniadau rheoli argyfyngau

5. Yn benodol, canolbwyntiodd gwaith y Pwyllgor ar ddau fater. I ddechrau, mae ganddo rôl allweddol mewn monitro blaenoriaeth gorfforedig yr Awdurdod o ran lleihau troseddu ac ofn pobl o droseddu ac, yn benodol, effeithiolrwydd y cynllun wardeiniaid cymdogaeth. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru i nifer o gyfarfodydd i gyflwyno eu barn a rhoi gwybodaeth ac esboniadau pellach lle bu angen.

6. Yr ail prif faes gwaith yw monitro perfformiad materion personél gan fod yr adnodd staffio'n cynrychioli ased mwyaf y Cyngor a'r maes mwyaf o wariant.

7. Parhaodd y Grŵp Byr Dymor Pobl Ifanc sy'n Niwsans, sy'n cynnwys y cynghorwyr R Mark Davies, Ron Davies a Colin Powell, â'i waith yn ystod y flwyddyn. Er ei fod yn dal i fynd, gobeithia'r grŵp adrodd yn ôl i'r prif bwyllgor archwilio a chyflwyno ei ganlyniadau ac argymhellion erbyn diwedd 2005.

Atodiad 3

PWYLLGOR ARCHWILIO AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD

AELODAETH 2004/2005

Cyd-gadeiryddion (2) :	A C Bailey	J R Skelland
Aelodau (12) :	Terry Evans Mrs June Fearnall K H Hett J M Humberstone Geoff Lowe Paul H Pemberton	R D Prince Mark Pritchard David Rogers Christopher M Stubbs Malcolm Williams Michael Williams
Cydlynydd Swyddog Arweiniol:	Keith Lea Rheolwr Archwilio	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y Pwyllgor cyn etholiadau Mehefin 2004 hefyd (rhwng Ebrill a Mehefin 2004):	R W Caldecott R B Evans (cyd-gadeirydd) Sylvia Greenaway Sheila Griffiths Malcolm Hughes	I Roberts Mrs J M B Roberts M J Vickers Cyril Williams J Woodrow (cyd-gadeirydd)

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a swyddogaethau

- **Cynllunio** gan gynnwys: materion cynllunio lleol, rhanbarthol a strwythurol; rheoli adeiladu; cadwraeth
- **Rheoli gwastraff** gan gynnwys: casglu sbwriel; glanhau strydoedd; gwaredu gwastraff; ailgylchu
- **Priffyrdd** gan gynnwys: cynnal a chadw a gwella ffyrdd a llwybrau troed; goleuadau stryd
- **Cludiant** gan gynnwys: diogelwch y ffyrdd; cludiant cyhoeddus; meysydd parcio
- **Diogelu'r cyhoedd** gan gynnwys: hybu iechyd; diogelwch bwyd; safonau masnach; wardeiniaid anifeiliaid
- **Datblygiad economaidd** gan gynnwys: datblygiad ac adfywiad trefol a gwledig; twristiaeth; cefnogi busnesau
- **Llyfrgelloedd**

Prif gynlluniau a strategaethau

Gorfodi Cyfreithiau Bwyd; Cynllun Cludiant Lleol; Cynllun Datblygu Unedol; Strategaeth Datblygiad Economaidd; Strategaeth Rheoli Gwastraff.

GWYBODAETH BELLACH

Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005:

1. Cynhwysai'r Pwyllgor Archwilio Amgylchedd ac Adfywiad o 14 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion).

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod **9** tro yn ystod y flwyddyn.

3. Cyfartaledd y presenoldeb yn y cyfarfodydd oedd **68%** (yn union yr un fath â'r flwyddyn flaenorol).

4. Roedd y prif faterion a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-
   - Cynllun Ffordd Gyswllt Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
   - Strategaeth Ddrafft yr Adran Datblygiad Economaidd 2004-07
   - Cynllun Casglu Sbwriel/Ailgylchu
   - Arolwg o'r Cynllun Cludiant Lleol 2001-2006
   - Adfywiad gwledig yn Wrecsam
   - Taliadau meysydd parcio
   - Canolfannau cymuned/ariannu neuaddau pentref
   - Cynllun Gweithredu Strategol Cymuned Broughton 2004-07
   - Strategaeth Digwyddiadau Datblygiad Economaidd 2004-07
   - Cronfa Adfywiad Corfforol (PRF)

5. Unwaith eto, mae gan y Pwyllgor Archwilio hwn gyfrifoldebau helaeth, sy'n cynnwys datblygiad economaidd ac adfywiad, ffyrdd a chludiant, cynllunio a gwastraff. Ystyriwyd materion sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o'r uchod i rai raddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

6. Nid oes amheuaeth bod yr arolwg o'r dewisiadau ar gael o ran y ffordd gyswllt arfaethedig i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam wedi bod y mater unigol mwyaf y mae'r Pwyllgor hwn wedi ei drafod, o ran diddordeb gan y cyhoedd a'r amser y mae'r Pwyllgor wedi ei roi iddo. Mae'r Pwyllgor wedi arwain y ffordd a chaniatáu i'r cyhoedd a chyrff allanol siarad a chyflwyno barn. Yn wir, mae'r drafodaeth wedi arwain at ddewis ychwanegol i'r rhai a amlinellwyd ar y cychwyn, sef mabwysiadu'r elfen ddeheuol fel y dewis ffordd.

7. Gwnaeth y Pwyllgor ymdrech i ddenu sylw'r cyhoedd trwy gynnal un cyfarfod yn Neuadd Goffa Gresford nd, yn anffodus, bu'n aflwyddiannus ac mae hyn yn amlygu'r problemau y mae'r swyddogaeth archwilio yn eu hwynebu wrth ennyn diddordeb y cyhoedd.

Atodiad 4

PWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

AELODAETH 2004/2005

Cyd-gadeiryddion (2):	J J Colbert	M J Edwards
Aelodau (8):	Nick S Colbourne Judith C Connolly R Mark Davies R J Dutton OBE	F K Edwards George D James Mrs Gwyneth Roberts Michael Williams
Cydlynydd Swyddog Arweiniol:	Keith Lea Rheolwr Archwilio	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y Pwyllgor cyn etholiadau Mehefin 2004 hefyd (rhwng Ebrill a Mehefin 2004):	D Broderick George J Crisp R B Evans	P Jeffares J Woodrow M J Vickers (cyd-gadeirydd)

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a swyddogaethau

- **Cyllid**: agweddau ariannol unrhyw wasanaeth, prosiect neu swyddogaeth; statws ac adnoddau ariannol cyffredinol y Cyngor; strategaethau buddsoddi, benthyg ac yswiriant corfforedig y Cyngor; materion ariannol unrhyw gyd-fentrau, partneriaethau neu gwmnïau y mae gan y Cyngor fuddiant ynddynt
- **Archwilio:** hybu rheolaeth fewnol, creu diwylliant gwrthdwyll ac arolwg o'r rheoliadau ariannol; monitro'r archwilwyr gan gynnwys arolygu cynlluniau archwilio, penodi archwilydd allanol, arolygu perfformiad archwilwyr a chyfathrebu â'r archwilydd allanol, monitro'r Cyngor gan gynnwys helpu i gynnal cyswllt rhwng archwilwyr a staff, a derbyn y llythyr archwiliad blynyddol ar gyfer aelodau gan yr archwilydd allanol cyn ei gyflwyniad i'r Bwrdd Gweithredol

Prif gynlluniau a strategethau

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys; Cynlluniau Cyllideb; Rheoliadau Ariannol; Cynlluniau Archwilio.

GWYBODAETH BELLACH

Yn y cyfnod Ebrill 2004 a Mawrth 2005:

1. Cynhwysai'r Pwyllgor Archwilio Ariannol o 10 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion).

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod **10** tro yn ystod y flwyddyn.

3. Cyfartaledd presenoldeb yn y cyfarfodydd oedd 71% (cyfartaledd y flwyddyn flaenorol oedd 71% hefyd).

4. Roedd y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio hwn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-

    - Arolwg o broses cynllunio cyllideb y Cyngor
    - Cynllunio busnes y Cyfrif Refeniw Tai
    - Ad-brisio Treth y Cyngor
    - Gobeithion ariannol a'r broses cynllunio ariannol
    - Arolwg rheoli perfformiad
    - Cynllun gweithredu'r prosiect ysgolion uwchradd
    - Dangosyddion perfformiad statudol – perfformiad sy'n dirywio
    - Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
    - Diwrnod Rasys Wrecsam
    - Llythyr archwiliad blynyddol y rheolwr perthynas
    - Adroddiadau Archwiliad Cymru sy'n perthyn i brosesau ariannol

5. Mae llawer o waith y Pwyllgor Archwilio Ariannol (Cyllid a Pherfformiad erbyn hyn) yn perthyn i fonitro ac arolygu statws, rheoliadau a gweithdrefnau ariannol Cyngor ac felly mae ei gyfrifoldebau'n gulach na rhai o'r pwyllgorau archwilio eraill (ehangwyd ei gyfrifoldebau'n ddiweddar i gynnwys arolygu materion rheoli perfformiad).

6. Canolbwyntiwyd felly ar y strategaethau a'r adroddiadau a gynhyrchwyd gan yr Adran Cyllid a Pherfformiad, yn enwedig yr Is-Adran Cyfrifeg ac Archwiliad Mewnol ac Archwiliad Cymru.

7. Yn ogystal, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag arolwg sylfaenol o broses gyllideb y Cyngor, cyfweld ag aelodau a swyddogion allweddol a gofyn am wybodaeth ganddynt, gan gynnwys cyn arweinwyr a dirprwy arweinwyr y Cyngor, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr strategol a phrif swyddogion. Canlyniad yr arolwg hwn, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol, yw proses ddiwygiedig sy'n caniatáu i aelodau adnabod meysydd a gwasanaethau i'w harolygu, amserlen ar gyfer gweithgareddau allweddol a phenderfyniadau pwysig.

8. Mae'r Pwyllgor wedi arwain ar y gwaith o fonitro effeithiolrwydd y pecyn offer rheoli prosiectau hefyd, yn dilyn yr ymchwiliad a gafwyd y flwyddyn flaenorol i brosiect ysgolion uwchradd Wrecsam.

Atodiad 5

PWYLLGOR ARCHWILIO MATERION CYMDEITHASOL, IECHYD A THAI

AELODAETH 2004/2005

Cyd-gadeiryddion (2)	J W Coleman OBE	Mrs J M Lowe
Aelodau (10)	J J Colbert	D J Griffiths
	Gerry M Craddock	K H Hett
	F K Edwards	George D James
	T Alan Edwards	F A Nichols
	Terry Evans	Malcolm Williams
Cydlynydd Swyddog Arweiniol:	Karen Mills Swyddog Archwilio	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y Pwyllgor cyn etholiadau Mehefin 2004 hefyd (rhwng Mawrth a Mehefin 2004):	George J Crisp J Gordon S Roberts Mrs J M B Roberts	J R Skelland Mrs J Trommelen Cyril Williams

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a swyddogaethau

- **Gwasanaethau cymdeithasol** gan gynnwys; asesiadau; gofal cartref, preswyl a dydd; oedolion ag anawsterau dysgu a/neu gorfforol; iechyd meddwl; camdriniaeth cyffuriau/alcohol; hawliau lles; pryd ar glud; therapi galwedigaethol
- **Tai** gan gynnwys: dyraniadau; casglu rhent; ôl-ddyledion; tai gwag; trwsiadau a gwelliannau; digartrefedd; llety cysgodol; safeoedd teithwyr; galwad gofal
- **Hamdden** gan gynnwys: canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon; celfyddydau ac adloniant; amgueddfeydd; datblygu chwaraeon
- **Iechyd** gan gynnwys: hybu iechyd; materion y GIG/Bwrdd Iechyd Lleol; iechyd, gofal cymdeithasol a lles

Prif gynlluniau a strategaethau

Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Cynllun Gofal Cymdeithasol; polisïau a strategaethau tai.

GWYBODAETH BELLACH

Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005:

1. Cynhwysai'r Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai o 12 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion).

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod **10** tro yn y 12 mis diwethaf.

3. Cyfartaledd presenoldeb y cyfarfodydd oedd **68%** (roedd yn 70% y flwyddyn flaenorol).

4. Mae gan y Pwyllgor Archwilio hwn gyfrifoldebau helaeth ac adlewyrchir hyn yn yr ystod eang o faterion a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, canolbwyntiodd mwyafrif gwaith y Pwyllgor hwn cyn 2004 ar wasanaethau cymdeithasol a thai. Yn ystod 2004/2005, archwiliodd y Pwyllgor nifer o eitemau'n perthyn i iechyd, gofal cymdeithasol a lles, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Pobl Hŷn, y Cynllun Gweithredu Maethiad a'r Cynllun Gweithredu Gweithgaredd Corfforol.

5. Cynhwysodd y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn:-

   - Cyllideb y Gwasanaethau i Oedolion
   - Ffioedd cartref gofal "Pecyn Offer Pris Teg am Ofal"
   - Comisiynu gofal cymdeithasol i oedolion
   - Meini prawf cymhwyster y gwasanaethau cymdeithasol
   - Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
   - Cynllunio Busnes HRA – Fframwaith Ariannol
   - Cynllun cyllideb HRA ac ailstrwythuro gwasanaethau landlordiaid
   - Gwybodaeth ariannol mewn perthynas â chyfrifon refeniw tai (HRA)
   - Cynllun Gweithredu Therapi Galwedigaethol
   - Adroddiad Blynyddol Diogelu Oedolion Hawdd eu Niweidio 2003/04
   - Arolygu polisïau dyrannu tai
   - Strategaeth Dod yn Oedolion
   - Mentrau "Cartrefi Cynnes" Wrecsam
   - Strategaeth Tymor Hir – Tai Cysgodol
   - Tai Cyngor

6. Yn nodedig yw'r arolygon a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol (gwasanaethau oedolion). Mae'r rhain yn cynnwys:
   - arolwg o feini prawf cymhwyster y gwasanaethau cymdeithasol i greu system unedig a theg ar gyfer asesu a rheoli gofal. Yn ystod arolwg trylwyr a chadarn, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ofalus i oblygiadau sefydlu meini prawf cymhwyster a mesurau diwygiedig ac argymhellodd y dylai'r meini prawf fod yn gymedrol er mwyn cadw annibyniaeth pobl. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar hyn ym mis Ebrill 2004. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r sefyllfa yn ystod 2005 – 06.
   - arolwg tymor hir mewn perthynas â chomisiynu gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r arolwg hwn, sy'n dal i fynd yn ei flaen, yn ystyried effeithiolrwydd a thegwch ynghyd â materion ariannol.
   - arolwg o'r rhestr aros therapi galwedigaethol a nodwyd fel maes gwella. Gosododd y Pwyllgor darged i leihau'r broses asesu i 3 mis. Mae'r amser aros wedi gostwng erbyn hyn er bod y Pwyllgor yn dal i fonitro'r sefyllfa.

7. Ymgymerodd y Pwyllgor hwn ag arolwg o'r Polisi Dyrannu Tai a arweiniodd at bolisi diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol.

8. Mae'r Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai'n awyddus i annog mwy o aelodau'r cyhoedd a phartneriaid i gymryd rhan yn y broses archwilio yn ystod 2005-06. Mae cynlluniau eisoes yn eu lle ar gyfer cyd-gyfarfod gyda'r Bartneriaeth Aelodau a Thenantiaid ym mis Mai 2005. Mae trafodaethau'n mynd yn eu blaen hefyd i annog ein partneriaid yn y sectorau gwirfoddol ac iechyd yn Wrecsam i chwarae mwy o rôl.